TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

**Dyddiad cyhoeddi:** 9 Awst 2021

**Cais Rhyddid Gwybodaeth**

Rydym yn ysgrifennu atoch i ymateb i'ch cais am wybodaeth, yr ymdriniwyd â hi dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf a'n polisi mynediad at wybodaeth.

**Rydych chi wedi cyflwyno'r cais canlynol (mae eich cwestiynau wedi'u hamlygu mewn coch):**

> *"Teithiais o Gaerdydd i Aberystwyth drwy Amwythig ddydd Llun diwethaf gan ddychwelyd ddydd Gwener. Roedd yn daith i ymweld â theulu nad oeddwn wedi'u gweld ers 18 mis. Does gen i ddim car ac rydw i bob amser yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Cyn Covid, ychydig iawn o gerbydau oedd gan y gwasanaeth trên o Gaerdydd i Fanceinion a chyrchfannau eraill yng ngogledd Cymru/Lloegr bob amser, ac weithiau dim ond 2 gerbyd sydd ar y gwasanaeth i Fanceinion. Doedd hyn byth yn ddigon ar gyfer gwasanaeth mor brysur. Roedd yn debyg eto'r wythnos diwethaf, gyda dau gerbyd ac roedd cadw pellter cymdeithasol yn amhosibl ac nid oedd seddi i bawb. Nawr, yn fwy nag erioed, mae'n bwysig teimlo'n ddiogel ar drenau.* A fyddech cystal â rhoi gwybod i mi pam mae cyn lleied o gerbydau ar y gwasanaeth hwn **(Cwestiwn 1)**?
>
> *Mae hyd yn oed yn fwy syfrdanol pan fydd llawer mwy o gerbydau ar wasanaethau fel y rheini sy'n mynd o Gaerdydd i'r Barri. Roedd mwy o gerbydau ar drên a oedd wedi'i oedi i Lynebwy yng ngorsaf Caerdydd. Nid yw'n gwneud synnwyr o gwbl. Mewn gwirionedd, rydych chi'n gwneud eich gwasanaeth yn anaddas i rai dinasyddion, e.e. yr henoed, yr anabl, pobl sydd â chyflyrau iechyd tymor hir, na fyddent yn teimlo'n ddiogel o gwbl i deithio. Yn sicr, ni fyddwn yn awgrymu bod fy mherthnasau oedrannus yn defnyddio trenau TrC ar hyn o bryd, sy'n drueni mawr gan eu bod wedi'u defnyddio'n rheolaidd cyn y pandemig.*
>
> *Ydych chi wedi cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar effaith peidio â gallu cadw pellter cymdeithasol ar eich trenau, er mwyn i chi allu asesu'r effaith ar y bobl a grybwyllais uchod, ee pobl â nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb?* Os nad ydych wedi gwneud hynny, a fyddech cystal â rhoi gwybod i mi pam **(Cwestiwn 2)**?
>
> *Rwy'n gwerthfawrogi bod anawsterau'n gysylltiedig â rhedeg rhwydwaith trenau yn ystod pandemig ac rwy'n gwerthfawrogi ymdrechion eich staff i barhau i weithio. Wrth gwrs, mae effaith ar eich staff os nad ydych chi'n gallu gwarantu fod pellter cymdeithasol yn cael ei gadw gan eu bod yn cael eu rhoi mewn perygl* **(Cwestiwn 3)**. *Nid yw'r pandemig yn mynd i ddiflannu'n sydyn felly mae angen gwneud pob ymdrech i wneud siwrneiau trên yn ddiogel ac yn gyfforddus i bawb. Rhowch wybod i mi am y canlynol:*
>
> *A fydd mwy o gerbydau (na 2) yn cael eu darparu ar wasanaeth Caerdydd - Manceinion, gogledd Cymru/Lloegr yn y dyfodol* **(Cwestiwn 4)**?
>
> *Pam fod cyn lleied o gerbydau ar rai gwasanaethau a chymaint mwy ar wasanaethau eraill, llai prysur* **(Cwestiwn 1)?**

*Ydych chi wedi cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar beidio â gallu cadw pellter cymdeithasol? Os nad ydych wedi gwneud hynny, pam ddim* **(Cwestiwn 2)**?

*Ydych chi'n bwriadu cyflwyno seddi dosbarth cyntaf ar unrhyw un o'ch gwasanaethau yn y dyfodol? Os ydych, pa rai? Byddwn yn falch o dalu am sedd wedi'i gwarantu a cherbyd llai prysur (ond ni all pawb) wneud hynny* **(Cwestiwn 5)**.

*A yw'r broblem o ran darparu mwy o gerbydau ar y llwybrau prysur hynny yn dibynnu ar gyllid* **(Cwestiwn 1)**?"

**Mewn ymateb i'ch cwestiynau, rydym ni'n gallu darparu'r wybodaeth ganlynol:**

Drwy gydol y pandemig rydym wedi cyflwyno nifer o fesurau i leihau'r risgiau i deithwyr a staff. Mae'r rhain yn dal ar waith heddiw, gan gynnwys gwaith glanhau yn drwyadl ychwanegol, glanhau mannau sy'n cael eu cyffwrdd yn rheolaidd gyda chyfryngau gwrthfeirysol, arwyddion ychwanegol, gwybodaeth, cyhoeddiadau, staff ychwanegol sy'n darparu dulliau canfod y ffordd a diogelwch; yn ogystal â darparu gwybodaeth fyw drwy ein Gwiriwr Capasiti ar-lein er mwyn i deithwyr wneud penderfyniadau diogel ynghylch eu trefniadau teithio.

Mae ein cydymffurfiad o ran gorchuddion wyneb wedi bod yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer rheilffyrdd, ac mae'n brawf o'n hymrwymiad i ymgysylltu â'n teithwyr, yn ogystal â'n perthynas waith gref â'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, sy'n gyfrifol am orfodi'r cyfreithiau cadw pellter cymdeithasol.

Rydym yn parhau i weithio'n galed i gefnogi teithwyr sy'n dychwelyd i'n gwasanaethau, ond wrth i nifer y teithwyr gynyddu, mae cadw pellter cymdeithasol ar drafnidiaeth gyhoeddus yn dod yn fwy heriol. Mae ein timau cynllunio trenau a gweithredu yn gweithio'n eithriadol o galed i sicrhau bod cymaint o gapasiti cadw pellter cymdeithasol â phosibl ar gael.

## Cwestiwn 1 – Sut mae cerbydau'n cael eu dyrannu

Dim ond nifer cyfyngedig o gerbydau sydd ar gael i weithredu'r cannoedd o wasanaethau rydyn ni'n eu rhedeg bob dydd ar draws ein rhwydwaith. Rydym yn dyrannu ein hunedau hirach (3-cerbyd) i'r dilyniannau o deithiau a wneir gan drên unigol yn ôl y galw a brofir ar y trên hwnnw drwy gydol y dydd. Felly, er enghraifft, gall trên fod â nifer uchel iawn o deithwyr yn ystod oriau brig, ond gweithredu teithiau tawelach rhwng yr oriau brig lle mae'n ymddangos bod yna orddarpariaeth. Mae hyn yn arbennig o wir am y gwasanaethau lleol o amgylch Caerdydd. Ar y llaw arall, byddem yn dyrannu trên byrrach (1- neu 2 gerbyd) lle mae trên yn profi siwrneiau tawel drwy gydol y dydd ond efallai'n cael un daith brysurach, a lle nad oes digon o gapasiti'n cael ei ddarparu. Nid mater o ariannu yw hyn; mae'n fater o gydbwyso ar draws y rhwydwaith cyfan. Rydym yn parhau i fonitro nifer y bobl sy'n teithio ac yn adolygu ein hamserlen yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod ein cerbydau'n cael eu defnyddio yn y mannau cywir.

Mae'n ddrwg gennym fod y trên a deithioch chi arno i Fanceinion yn anghyfforddus o brysur. Fel arfer, mae trenau rhwng Manceinion a De Cymru yn drenau 3 cherbyd, felly byddem yn dychmygu mai problem ar y diwrnod a achosodd y gostyngiad. Fodd bynnag, heb fanylion penodol am y daith (h.y. amser y gwasanaeth dan sylw), ni allwn ymchwilio ymhellach i hyn.

**Cwestiwn 2 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer Gofynion Cadw Pellter Cymdeithasol ar Wasanaethau**

Mae TrC yn deall pwysigrwydd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac mae'n cael ei hyrwyddo'n frwd ar bob lefel yn y sefydliad. Mae gwybodaeth am ein hagwedd at gydraddoldeb ac amrywiaeth ar gael ar ein gwefan: https://trc.cymru/cydraddoldeb

Ni chynhaliwyd Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ffurfiol o ran cadw pellter cymdeithasol ar drenau; ond mae cydraddoldeb ac amrywiaeth wedi cael eu hystyried yn y cynlluniau. Mae ein hasesiad risg i reoli arferion cadw pellter cymdeithasol ac egwyddorion ar gyfer rheoli cadw pellter cymdeithasol yn cydnabod anghenion posibl pobl hŷn, pobl anabl neu bobl agored i niwed. Mae nodweddion gwarchodedig teithwyr yn cael eu hystyried yn benodol yn asesiadau risg y goruchwyliwr ynghylch a ddylid caniatáu i deithwyr ychwanegol ymuno â gwasanaeth 'llawn lle mae'n rhaid sefyll' neu beth i'w wneud os nad oes ffordd ddiogel o ganiatáu iddyn nhw fynd ar y trên.

Mae gan TrC hefyd Banel Hygyrchedd, sy'n dylanwadu ar ein polisïau hygyrchedd ac yn rhoi cyngor i ni ar sut mae cefnogi cwsmeriaid byddar, anabl a hŷn i ddefnyddio'n gwasanaethau yn effeithiol. Drwy gydol y pandemig, mae'r Panel wedi bod yn ymwybodol o'n cynlluniau ac, ym mis Mawrth 2021, fe wnaethom gynnal gweithdy gyda'r Panel er mwyn iddyn nhw roi cyngor i ni ar ein cynlluniau ar gyfer dychwelyd yn ddiogel i drafnidiaeth gyhoeddus. Mi wnaethant gymeradwyo'r cynllun, yn amodol ar rai mân newidiadau (fel arwyddion) a gyflwynwyd gennym.

Er na chynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar y mater hwn, mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi cael eu cwblhau yn ystod y 12 mis diwethaf ar yr holl ymrwymiadau ar gyfer ein gwasanaeth rheilffyrdd.  Roedd yr ymarferiad hwn yn rhan o'n rhaglen 'dyfodol rheilffyrdd'.

**Cwestiwn 3 - Diogelwch staff**

Mae ein Hegwyddorion o Reoli gweithdrefnau Cadw Pellter Cymdeithasol yn sicrhau amgylchedd gweithio diogel i oruchwylwyr yn unol â gofynion Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 ac mae'n sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Rheoliadau Diogelu Iechyd (cyfyngiadau'r conafeirws) 2020 ar gyfer Cymru a Lloegr.

Fodd bynnag, fel sy'n wir dan amgylchiadau gweithredu arferol, gall staff wrthod gweithio ar drên os ydynt yn teimlo bod bygythiad i ddiogelwch, yn unol â gweithdrefnau diogelwch y cwmni.

Drwy gydol y pandemig, mae'r rhan fwyaf o'n goruchwylwyr wedi aros yn eu cabanau, lle nad oes perygl iddynt ddal neu ledaenu'r coronafeirws.

**Cwestiwn 4 - A fydd mwy o gerbydau (na 2) yn cael eu darparu ar wasanaeth Caerdydd - Manceinion, gogledd Cymru/Lloegr yn y dyfodol?**

Bydd. Rydym wedi comisiynu fflyd newydd o drenau, sy'n cael eu hadeiladu ar hyn o bryd, er mwyn cynyddu maint ein fflyd a darparu trenau hirach. Bydd y trenau newydd hyn yn dechrau cael eu defnyddio yn 2022 a bydd digon o'r trenau hyn ar gael i weithredu trenau hirach o 2023 ymlaen. Bydd trenau rhwng Caerdydd a Manceinion fel arfer yn drenau 4 neu 5 cerbyd (ac eithrio'n gynnar neu'n hwyr iawn yn y dydd, lle nad oes angen y capasiti arnom); a bydd y rhan fwyaf o drenau rhwng Gogledd Cymru a Manceinion yn cael eu ffurfio o 3 cherbyd, gyda rhai trenau brig yn cael eu cryfhau i 4 neu 5 cerbyd.

**Cwestiwn 5 – Gwasanaethau Dosbarth Cyntaf**

Rydym eisoes yn cynnig gwasanaeth dosbarth cyntaf ar ddwy daith y dydd rhwng Caerdydd a Chaergybi, a bydd y nifer hwn yn codi i chwech ym mis Medi eleni. O 2023 ymlaen, rydyn ni'n bwriadu cynnig teithiau dosbarth cyntaf rhwng Manceinion a De Cymru.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o ddefnydd i chi.

Yn gywir,

**Trafnidiaeth Cymru**

**Hawliau Apelio**

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu freedomofinformation@tfw.wales. Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno o fewn 40 diwrnod gwaith i dderbyn y llythyr hwn. Os na fyddwch chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: https:/ico.org.uk/make-a-complaint/

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwybodaeth Swyddogol neu Gyhoeddus".